



Strategaeth 2030: Strategaeth Cynaliadwyedd

A. Alinio â Strategaeth 2030			
		Sylfaenol	Eilaidd
Colofnau Strategol: Cynaliadwyedd a chynnydd...	Rhagoriaeth ymchwil		✓
	Profiadau dysgu trawsnewidiol		✓
	Profiad rhagorol i fyfyrwyr		✓
	Amgylchedd dwyieithog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu		✓
Themâu trawsnewidiol: Atgyfnerthu a hyrwyddo...	Effaith economaidd, gymdeithasol a dinesig		✓
	Cyrhaeddiad byd-eang		✓
	Iechyd a lles		✓
	Pobl a thalent		✓
Yn sail i hyn oll mae...	Cynaliadwyedd sefydliadol	✓	

B. Alinio â Risgiau Corfforaethol	
Risg corfforaethol 15	Annigonolrwydd o ran cyfeiriad strategol sefydliadol
Risg corfforaethol 29	Cyfeiriad strategol a gweithgareddau gweithredol sy'n anghyson â nodau datblygiad cynaliadwy

C. Llywodraethu	
Cyfnod y strategaeth	2021-2025
Trefniadau adolygu'r strategaeth	Caiff y strategaeth ei hadolygu'n flynyddol gan y Grŵp Strategaeth Cynaliadwyedd ac adroddir y canlyniadau i'r Pwyllgor Gweithredu.
Adolygwyd diwethaf	Adolygwyd a chymeradwywyd y strategaeth gyntaf gan y Pwyllgor Gweithredu ar 9 Chwefror 2022.

D. Rhagarweiniad	
Cynaliadwyedd wrth wraidd Prifysgol Bangor, fel y'i portreadir yn ein datganiad gweledigaeth yn ein cynllun, Strategaeth 2030:	
<p><i>"Prifysgol ac iddi gysylltiadau byd-eang, sy'n gwireddu cyfleoedd ar gyfer llwyddiant trwy ymchwil ac addysgu trawsnewidiol ac arloesol a sbardunir gan effaith, gyda ffocws ar gynaliadwyedd: diogelu'r amgylchedd, adfywio iechyd cymdeithas, a hyrwyddo ffyniant economaidd, cymdeithasol, dwyieithog, a diwylliannol."</i></p>	
Fel cymuned prifysgol, rhaid i ni weithredu mewn modd sy'n sicrhau bod anghenion ein myfyrwyr, ein staff a'n cymuned leol yn cael eu diwallu, heb gyfaddawdu ar allu'r rheini yn y dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.	

Rydyn ni i gyd eisiau i Brifysgol Bangor wneud yn dda: addysgu ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf, cynnal ymchwil flaenllaw, bod yn gyflogwr gwych, a chymryd rhan weithredol yn y gymuned. Rydym ni hefyd eisiau iddi fod o gwmpas am 140 mlynedd arall o leiaf: rydym ni am iddi fod yn gynaliadwy. I gyflawni hyn, mae angen i'r Brifysgol ddefnyddio pob math o adnoddau nawr, a sicrhau bod adnoddau tebyg yn dal ar gael yn y degawdau nesaf. Os gall Prifysgol Bangor gydbwysu'r defnydd o'r holl adnoddau sydd eu hangen arni nawr gyda'i gofynion tymor hir, bydd wedi cyflawni'r nod sylfaenol cynaliadwyedd.

Felly mae cynaliadwyedd ym Mhrifysgol Bangor yn bellgyrhaeddol, ac mae'n cynnwys popeth: o iechyd a lles ei staff, i ailgylchu yn ei neuaddau myfyrwyr; o gynnwys y cwricwlwm i'w gweithgareddau ymchwil. Mae'r strategaeth hon yn tynnu sylw at uchelgais Prifysgol Bangor, a'r camau allweddol y mae'n rhaid iddi eu cymryd, i gael ei derbyn fel y brifysgol flaenllaw ar gyfer cynaliadwyedd, ar draws ei holl weithgareddau. Rydym ni eisiau bod y brifysgol a ddewisir gan rai sydd am wneud y byd yn lle mwy cynaliadwy a gwneud gwahaniaeth go iawn.

E. Amcanion

1. Diffinio Cynaliadwyedd: Economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol

Ochr yn ochr â chynaliadwyedd adnoddau naturiol, rydym hefyd angen cynaliadwyedd mewn materion cymdeithasol, economaidd, a diwylliannol: dyheadau a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru, a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

Mae Prifysgol Bangor eisoes wedi cael ei chydabod â gwobrau amrywiol am ei hymrwymiad i gynaliadwyedd rydym wedi cynyddu ailgylchu, lleihau gwastraff, defnyddio ynni gwyrdd, ac rydym yn trydaneiddio ein fflyd cerbydau. O ran cymdeithas a diwylliant, rydym yn brifysgol ddwyieithog falch, wedi ymrwmo i ddileu rhagfarn ar sail rhyw, a datblygu diwylliant mwy cynhwysol ar draws cymuned y Brifysgol. Yn economaidd, mae'r Brifysgol yn parhau i sicrhau ei diogelwch ariannol, ac mae datblygiadau fel M-SParc yn annog menter ac entrepreneuriaeth yn y gymuned ehangach.

Yn amlwg, serch hynny, rydym ni am wneud yn well a gwneud mwy. Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwmo i ddod yn lle hyd yn oed yn fwy ysbrydoledig i bobl weithio ac astudio. Byddwn yn ymdrechu i wella bywydau pawb yn rhanbarth Gogledd Cymru, ac ymhellach i ffwrdd, gyda'n hymchwil sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd a'n huchelgeisiau byd-eang. Bydd ein hymchwil yn cofleidio *holl* elfennau cynaliadwyedd, a bydd ein haddysgu yn creu graddedigion sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth i fyw bywydau cynaliadwy eu hunain yn ogystal â chynyddu'r awydd hwn mewn eraill.

Byddwn yn cefnogi ein staff a'n myfyrwyr i ddeall cysyniadau eang cynaliadwyedd, a sut y gall pawb chwarae eu rhan, trwy wneud y canlynol:

- Datblygu fframwaith bathodyn i fynegi'n glir ac yn gyhoeddus sut mae ein portffolio academaidd (modiwlau a rhaglenni gradd), hyfforddiant doethurol a'n gweithgareddau ymchwil yn cyd-fynd â'r diffiniadau cynaliadwyedd a fynegir yn Neddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (Cymru) Llywodraeth Cymru, a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.
- Cyfleoedd datblygu staff i gyfathrebu egwyddorion cynaliadwyedd y Brifysgol trwy hyfforddiant, wedi'u cefnogi trwy system adolygiadau datblygu perfformiad (PDR) y Brifysgol.
- Gweithio i gynyddu perfformiad Bangor mewn tablau cynghrair uchel eu parch a chynlluniau gwobrau sy'n cyd-fynd â'n cenhadaeth, ein gwledigaeth a'n gwerthoedd.

2. Gweithredu Cynaliadwyedd: Uchelgeisiol, amlwg, a seiliedig ar dystiolaeth

Os yw Prifysgol Bangor am ddod yn arweinydd ym maes cynaliadwyedd, yna rhaid iddi fod yn uchelgeisiol yn y dyheadau y mae'n eu gosod iddi ei hun. Bydd ein huchelgeisiau yn seiliedig ar dystiolaeth amlddisgyblaethol gadarn, gan dynnu o arbenigedd academaidd ac arbenigedd sylweddol arall y Brifysgol, ar draws pob agwedd ar gynaliadwyedd. Mae gwybodaeth yr arbenigwyr hyn eisoes yn cael ei chyhoeddi mewn cyfnodolion ac adroddiadau gwyddonol, ac mae aelodau staff unigol a/neu adrannau eisoes yn ymgorffori gweithredoedd cadarnhaol sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd ledled y brifysgol.

Mae angen inni fod yn uchelgeisiol yn ein dyheadau; byddwn yn:

- Anelu i gyflawni'r canlynol erbyn 2030:
 - dangos ein bod yn gweithio tuag at dargedau a gydnabyddir yn genedlaethol megis bod yn brifysgol Fasnach Deg, Garbon Niwtral a Di-wastraff, a chaffael ein holl fwyd o ffynonellau cynaliadwy;

- Neilltuo 30% o'n campws i gynorthwyo bywyd gwyllt, yn unol ag ymgyrch '30 by 30 'yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt.
- Defnyddio arbenigedd yn y brifysgol, er enghraifft defnyddio gwrthbwysu carbon, lle bo hynny'n briodol.
- Gofyn am fewnbwn staff a myfyrwyr i'r cynlluniau hyn, a chydabod eu hymdrechion trwy'r model dyrannu llwyth gwaith ac adolygiadau datblygu perfformiad yn achos staff, a thrwy weithgareddau y ceir credydau am eu gwneud yn achos myfyrwyr.
- Hyrwyddo ein dyheadau yn gyhoeddus, gan esbonio'r heriau yr ydym yn eu hwynebu.
- Gweithio gyda grwpiau a sefydliadau eraill i gefnogi, rhannu a chymeradwyo'r arferion gorau - yn lleol, yn rhanbarthol, ac yn genedlaethol. Er enghraifft, ymuno â sefydliadau eraill a chytuno i argymhellion perthnasol o gyfarfodydd Cynhadledd y Partïon (COP), Confensiwn Fframwaith y Cenedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd (UNFCCC).
- Datblygu a chynnal cynllun gweithredu a gynllunnir i wireddu'r dyheadau ehangach hyn, y gallwn ei hyrwyddo a'i ddefnyddio i asesu ein cynnydd.
- Comisiynu ymyriadau a mentrau gyda ffocws ar leihau gwastraff a lleihau ein hól troed carbon – gan ystyried lle bynnag y bo modd yr holl gamau caffael a chwmpas allyriadau.
- Manteisio ar ddatblygiadau cynaliadwyedd fel rhan o becynnau cyllid sydd ar gael trwy amrywiol gynlluniau cenedlaethol a rhyngwladol.

3. Cyfathrebu Cynaliadwyedd: Cyfathrebu agored a gonest

Mae Prifysgol Bangor eisoes yn gwneud cymaint i fod yn brifysgol gynaliadwy - o ran y camau y mae'n eu cymryd, a'r addysgu a'r ymchwil y mae'n eu gwneud. Byddwn yn cyfleu yr hyn a wnawn mewn ffordd dryloyw.

Bydd llwyddiant wrth gwrdd â holl dargedau cynaliadwyedd Prifysgol Bangor yn cael ei hyrwyddo ledled cymuned y brifysgol ac ymhlith y cyhoedd yn ehangach. Ni fyddwn yn betrusgar ynglŷn â rhoi gwybod i bobl pa mor dda ydym, byddwn yn onest ac yn dryloyw ynghylch yr hyn yr ydym wedi'i wneud yn dda, ynghyd â ble y gallem wneud yn well. Bydd y dull hwn, ynghyd â gwneud yr hyn a wnawn ar sail tystiolaeth, yn helpu i sicrhau na allwn gael ein cyhuddo o 'wyrddgalchu'. Rhaid i ni beidio byth â chyrraedd y pwynt lle rydym yn dweud wrth bobl pa mor gynaliadwy ydym, ond eto ddim yn cymryd y camau sy'n ofynnol i ymarfer yr hyn yr ydym yn ei bregethu.

I gyflawni hyn, byddwn yn:

- Cynhyrchu adroddiadau blynyddol sy'n cwmpasu ein gweithredoedd cynaliadwy mewn ymchwil, isadeiledd, a gweithdrefnau gweithredu'r brifysgol, gan gynnwys parhau i gynhyrchu Adroddiad System Rheoli Amgylcheddol blynyddol y Brifysgol. Byddant yn cael eu dosbarthu'n agored, ochr yn ochr â bwletinâu diweddarau rheolaidd i gymuned y brifysgol.
- Datblygu cynllun cyfathrebu yn amlinellu sut y byddwn yn hyrwyddo'r gwaith a'r gweithgareddau sy'n cael ei wneud ym maes cynaliadwyedd. Bydd hyn hefyd yn cynnwys y sianeli y byddwn yn eu defnyddio i gyrraedd y gwahanol gynulleidfaoedd targed (e.e. y wefan, y cyfryngau cymdeithasol, e-bost, deunydd printiedig) a bydd yn adlewyrchu cyfathrebu mewnol ac allanol.
- Byddwn yn gweithio i sicrhau cyfathrebu da rhwng Grŵp Tasg Cynaliadwyedd y brifysgol a'n myfyrwyr, ein Hysgol Ddoethurol, a'n staff.
- Byddwn yn mapio'r mentrau cynaliadwyedd yn eglur yn unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a lle bo hynny'n briodol â' 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwyedd y Cenedloedd Unedig wrth drafod unrhyw un o'n gweithredoedd.

4. Cofleidio Cynaliadwyedd: Wrth wraidd popeth a wnawn

Ein nod cyffredinol yw bod cynaliadwyedd yn cael ei ymgorffori i'r fath raddau ym Mhrifysgol Bangor nes yn syml mai dyna'r 'ffordd rydym ni'n gwneud pethau yma'.

Ein nod yw sicrhau bod cynaliadwyedd yn rhan annatod ac wedi ei ymgorffori ym mhob agwedd ar fywyd ym Mhrifysgol Bangor, ac yn holl weithgareddau ein staff a'n myfyrwyr. Mae'r ysgolion ac adrannau'r gwasanaethau proffesiynol yn cymryd rhan mewn ystod eang o feysydd cynaliadwy ac wedi rhoi ar waith brojectau ac iddynt ffocws cynaliadwy. Byddwn yn gweithio i ddod â'r mentrau a'r darnau hyn o waith ynghyd, gan rannu'r arferion gorau ledled y brifysgol.

Mae arnom eisiau i Brifysgol Bangor fod yn gyfystyr â chynaliadwyedd. Mae arnom eisiau i feddwl yn gynaliadwy fod nid yn unig yn rhywbeth sy'n cael ei wneud ochr yn ochr â gweithgareddau eraill, ond yn rhan greiddiol o bopeth a wnawn: addysgu, hyfforddi a dyrchafu staff, ymchwil, marchnata, caffael,

recriwtio, datblygu'r campws, ymddygiadau gweithio, patrymau teithio i'r gwaith, teithio ar fusnes, arlwy, rheoli ystadau, cynnwys y gymuned ac iechyd a lles ein staff - ein bwriad yw sicrhau bod egwyddorion cynaliadwyedd yn rhan greiddiol o bob un o'r pethau hyn.

Er mwyn sicrhau mai Prifysgol Bangor fydd y brifysgol fwyaf cynaliadwy yn y Deyrnas Unedig, byddwn yn:

- Darparu arweinyddiaeth glir mewn perthynas â chynaliadwyedd
- Gwella ein rheolaeth o'r campws a'r ystad fel yr amlinellir yn strategaeth ystadau'r Brifysgol.
- Creu cyfleoedd i bob myfyriwr sy'n cyrraedd Prifysgol Bangor i dderbyn addysg unigryw ac wedi ei deilwra sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd, a chefnogi hynny drwy ddarparu hyfforddiant arbenigol i staff. Bydd pob modiwl y ceir credydau am eu gwneud yn cael eu teilwra i fapio yn erbyn targedau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru, a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.
- Ffocysu ein meysydd ymchwil craidd i ganolbwyntio ar gynaliadwyedd fel y byddwn, fel prifysgol ymchwil flaenllaw, yn helpu i ateb rhai o'r cwestiynau pwysicaf yn y maes hwn.
- Ymgorffori ein hethos a'n gweithgareddau cynaliadwy yng ngweithgarwch marchnata'r brifysgol, gan gynnwys ein negeseuon a'n hymgyrchoedd.
- Creu ac ymgorffori rhwydwaith o hyrwyddwyr cynaliadwyedd i hyrwyddo cynaliadwyedd ar draws y colegau a'r gwasanaethau proffesiynol. Byddwn yn gweithio gydag Undeb y Myfyrwyr i hyrwyddo cynaliadwyedd ymhellach ymhllith cymuned y myfyrwyr.
- Datblygu amrywiaeth o fentrau (e.e. digwyddiadau, ymgyrchoedd) i hyrwyddo gweithgarwch ac ymddygiad cynaliadwy.
- Ceisio datblygu partneriaethau ystyrlon ar draws rhanbarth Gogledd Cymru, ac yn genedlaethol, i hyrwyddo meysydd o ddi-ddordeb cyffredin sy'n ymwneud â'r agenda cynaliadwyedd a sicrhau bod y brifysgol yn cael ei chydabod fel arweinydd ym maes cynaliadwyedd.
- Defnyddio technolegau digidol priodol i sicrhau mynediad cyffredinol i staff a myfyrwyr i gyfleusterau'r brifysgol.
- Sicrhau yr eir i'r afael yn benodol â chynaliadwyedd fel rhan o holl brosesau strategol, buddsoddi a chynllunio busnes y Brifysgol, gan gynnwys y potensial i gynyddu gwerthoedd cymdeithasol o gontractau'r Brifysgol.
- Cynnal ein statws fel cyflogwr Cyflog Byw, wedi'i achredu gan y Living Wage Foundation.
- Ystyried bob amser a yw'n hollol angenrheidiol i staff a myfyrwyr deithio o amgylch y Deyrnas Unedig neu dramor i gyflawni'r amcanion gofynnol ac annog ffyrdd o leihau cymudo mewn cerbydau â dim ond un teithiwr ynddynt.

F. Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Bydd cynnydd yn erbyn pob un o'r amcanion yn cael ei fynegi trwy ddangosyddion perfformiad allweddol; mae'r rhain wedi eu seilio ar fframwaith o ddangosyddion perfformiad allweddol a thargedau manylach sy'n gyson â chylch cynllunio busnes blynyddol y brifysgol, ac yn cael eu gweithredu drwy hynny.

1.	Nifer y staff sy'n mynychu elfennau hyfforddi ar thema cynaliadwyedd [amcan 4]
2.	Ein safle mewn tablau cynghrair sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd [amcan 1]
3.	Cyflawni targedau cynaliadwyedd a gydnabyddir yn genedlaethol [amcan 2]
4.	Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn adroddiad systemau rheoli amgylcheddol blynyddol y Brifysgol [amcan 2]
5.	Ymgorffori materion sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd yn rhan o fodiwlau hyfforddedig [amcanion 1,4]
6.	Nifer y straeon newyddion ac ymgyrchoedd marchnata sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd [amcan 3]
7.	Traffig y wefan [amcan 3]
8.	Nifer y digwyddiadau y rhoddir bathodyn cynaliadwyedd arnynt [amcan 4]
9.	Arolygon sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd [amcanion 1-4]